**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 28 Mawrth 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 14 Ebrill 2023 |

**PWNC**

Eitem 6: ACHOS BUSNES CARTREF GOFAL PENYBERTH, PENRHOS

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd Achos Busnes Strategol yn Atodiad A.

Awdurdodwyd y Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant i gyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol Strategol i Lywodraeth Cymru i geisio am £14.6miliwn o arian Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ail-gydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol (IRCF) i greu datblygiad partneriaeth sector gyhoeddus ar safle Penyberth, Penrhos, mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a symud ymlaen i ddatblygu Achos Busnes Amlinellol.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Fe gaeodd cartref gofal Penrhos yn 2020, ac mae'r safle wedi trosglwyddo i Gymdeithas Dai Clwyd Alyn ac mae cytundeb i drosglwyddo 2 acer o dir i Gyngor Gwynedd ar gyfer adeiladu cartref gofal newydd ar y safle.

Fel sydd wedi'i dystiolaethu yng ngwaith yr Asesiad Anghenion Poblogaeth mae cyfanswm o 130 o welyau preswyl yn Ardal Llŷn ac Eifionydd, ond ar ôl i Gartref Nyrsio Penrhos gau ddechrau Rhagfyr 2020 does dim darpariaeth o welyau nyrsio yn ardal Llŷn. Ymddengys y data mwyaf diweddar fod nifer cynyddol o'n trigolion mewn lleoliadau nyrsio y tu allan i Wynedd, a bydd nifer o'r rhain oherwydd bod prinder gwelyau yn eu cymuned.

Cyflwynwyd adroddiad ar 19 Gorffennaf 2022 i gymeradwyo'r achos dros newid i greu datblygiad partneriaeth sector gyhoeddus ar safle Penyberth, Penrhos, mewn partneriaeth gyda BIPBC.

Yn yr adroddiad hwnnw fe amlinellwyd y farn gyfreithiol, 'ni all y Cyngor fynd ati ar ben ei hun i ddarparu gofal nyrsio. Mae'n rhaid cael caniatâd y Bwrdd Iechyd neu fod y Cyngor yn gweithredu mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd'.

Mae trafodaethau parhaus gyda'r Bwrdd Iechyd yn nodi eu cefnogaeth mewn egwyddor i'r newid ac yn ddibynnol wrth gwrs ar achos busnes hyfyw. Bydd y Bwrdd Iechyd yn trafod yr achos busnes yn ystod mis Mawrth.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 28 Mawrth 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 14 Ebrill 2023 |

## PWNC

Eitem 7: BIDIAU UN-TRO 2023-24

## PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd y bidiau un-tro o £2,119,300 ar gyfer 2023/24 sydd i'w cyllido o'r gronfa Trawsffurfio.

Cymeradwywyd y bid cyfalaf gwerth £447,000 sydd i'w hariannu o gyllid cyfalaf.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Eleni, yn wahanol i'r drefn arferol, mae'r bidiau am adnodd un-tro yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad ar wahân i adroddiad y Gyllideb gan nad yw dyrannu adnodd un tro yn cael effaith ar osod ein cyllideb refeniw flynyddol nac yn ystyriaeth wrth orfod pennu cyfradd y Dreth Cyngor. Cyflwynir yr adroddiad hwn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol 2023/24 fel bod modd gweithredu o 1 Ebrill 2023.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 28 Mawrth 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 14 Ebrill 2023 |

## PWNC

Eitem 9: STRATEGAETH IAITH GWYNEDD 2023

## PENDERFYNIAD

Rhoddwyd sêl bendith i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Iaith ddrafft.

Dirprwywyd yr hawl i'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, mewn ymgynghoriad a'r aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, i baratoi a chynnal y broses ymgynghori.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae disgwyl i'r strategaeth iaith nesaf gael ei chyhoeddi ar gyfer Gwynedd erbyn diwedd 2023. Er mwyn cwrdd gyda'r amserlen mae angen cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y strategaeth ddrafft ddechrau mis Ebrill.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 28 Mawrth 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 14 Ebrill 2023 |

**PWNC**

Eitem 10: ECONOMI CYLCHOL GWYNEDD

**PENDERFYNIAD**

- Cytunwyd i Gyngor Gwynedd arwain ar gais grant a rhaglen i ddatblygu cynlluniau blaengar yn y maes gwaith economi cylchol.

- Awdurdodwyd y Pennaeth Economi a Chymuned a'r Pennaeth Cyllid i dderbyn cynnig grant Economi Gylchol gan Lywodraeth Cymru a sefydlu trefniadau priodol ar gyfer cyflawni'r rhaglen yng Ngwynedd.

- Cytunwyd i gytundebau partneriaethol cael ei rhoi mewn lle i bob partner sy'n amlinellu gweithdrefnau i'r prosiectau unigol.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwahodd Awdurdodau Lleol i gyflwyno ceisiadau am arian grant o'i Gronfa Economi Cylchol. Mae gwahanol wasanaethau'r Cyngor wedi cydweithio ar gais i ariannu pecyn o gynlluniau blaengar yn y maes economi cylchol.

Mae angen cymeradwyaeth y Cabinet i dderbyn grant gan Lywodraeth Cymru i ariannu'r ymyraethau hyn, sy'n ymrwymiad o £5,725,687.73

| | |
|---|---|
| Gwariant 2023/2024 (Cyfalaf a Refeniw) | £3,470,980.03 |
| Gwariant 2024/2025 (Cyfalaf a Refeniw) | £2,254,707.70 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 28 Mawrth 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 14 Ebrill 2023 |

## PWNC

Eitem 11: YMATEB CYNGOR GWYNEDD I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU I SEFYDLU CYNLLUN TRWYDDEDU STATUDOL YNG NGHYMRU AR GYFER LLETY GWYLIAU

---

## PENDERFYNIAD

Cefnogwyd ymateb Cyngor Gwynedd i ymgynghoriad Croeso Cymru ar sefydlu cynllun trwyddedu statudol yng Nghymru ar gyfer llety gwyliau.

---

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ar 16 Rhagfyr 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar sefydlu cynllun trwyddedu statudol i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru a bod angen ymateb erbyn 17 Mawrth 2023.

Mae'r ymgynghoriad yn ceisio adborth ar yr opsiynau posibl ar gyfer cyflwyno cynllun trwyddedu statudol ar gyfer pob math o lety ymwelwyr, gan gynnwys llety gosod tymor byr, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol cael trwydded gyda'r nod o godi safonau yn y diwydiant Twristiaeth. Ceisir barn ar ffurf, natur a gweithredu'r cynllun yn ogystal â gofynion creu cyfundrefn trwyddedu statudol yma yng Nghymru.

Bu trafodaeth Ryngadrannol cyn llunio'r adborth i'r 27 cwestiwn sydd yn rhan o'r holiadur canfod barn Croeso Cymru. Ceisir cefnogaeth y Cabinet i safbwynt Cyngor Gwynedd sydd wedi ei ddatgan drwy'r ymatebion yn yr holiadur.

---

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---